CYNHYRCHWYR CIG OEN AC EIDION CYMRU CYF
CYLCHlythyr
GAEAF 2019

# Ap newydd WLBP yn ysgafnhau baich ffermwyr da byw Cymru

Mae gwaith papur yn rhan anatod o fywyd nifer o ffermwr ers talwm, ond mae ap ffôn newydd ar gyfer cadw cofnodion wedi'i lansio ar gyfer cynhyrchwyr cig eidion a defaid Cymru sy'n arbed amser ac yn sicrhau cywirdeb.


Mae'r ap, sydd wedi'i greu'n unswydd ar gyfer Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cyf (WLBP), cymdeithas gydweithredol a reolir gan ffermwyr, yn symleiddio ac yn safoni cofnodion da byw ac yn dileu gwallau wrth gofnodi gwybodaeth feddyginiaethol hanfodol.

Mae'r ap Stockmove Express ar gyfer ffonau Android neu iOS, yn hawdd i'w ddefnyddio ac yn galluogi ffermwyr i gofnodi gwybodaeth bwysig am feddyginiaethau da byw yn syth – gan gynnwys pryniannau a thriniaethau. Mae'r cyfleuster sganio cod bar QR yn cofnodi enw'r cynnyrch, rhif y swp (batch no) a'r dyddiad dod i ben.

Mae ar gael i holl aelodau WLBP, a dyma'r datblygiad diweddaraf gan WLBP, sy'n cynrychioli dros 7,500 o ffermwyr da byw yng Nghymru, ac sy'n berchen ar Gynllun Gwarant Fferm Da Byw Cymru (FAWL).

Eglura Llŷr Lewis, Cydlynydd Safonau a Chofnodion Fferm WLBP, "Rydym wedi cael adborth gwych gan ffermwyr sydd wedi dechrau defnyddio'r ap, gan ei fod yn gyflym ac yn syml i'w ddefnyddio, ac yn lleihau'r gwaith papur.

"Mae'r cyfleuster sganio cod bar QR yn cofnodi enw'r cynnyrch, rhif y swp a'r dyddiad dod i ben. Mae hefyd yn cyfrifo cyfnod tynnu'r feddyginiaeth yn awtomatig ac yn poblogi llyfr meddyginiaethau'r fferm."





Mae'r ap hefyd yn cysylltu'n awtomatig â Gwefan Cofnodion Fferm WLBP, ac mae'r ap yn diweddaru cofnodion trawsgydymffurfio, gwarant fferm a rheoli fferm tra bod symudiadau'n cael eu mewnbynnu'n awtomatig i gofrestrau'r ddiadell a'r fuches.

Meddai Llŷr, "Gallwch gwblhau Llyfr Rheoli a Chynllun Iechyd ar-lein FAWL, ac mae popeth yn gysylltiedig â Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS) ac EID Cymru. Mae yna ddulliau rheoli amrywiol, a diweddariadau awtomatig, yn ogystal â chefnogaeth barhaus am ddim gan staff WLBP."

Mae'r ffermwr defaid o Geredigion, Rhun Williams, yn cadw diadell o 650 o famogiaid ar ei fferm yn Nhregaron.

"Rydw i wedi bod yn defnyddio'r ap ers mis Mehefin," meddai Rhun. Mae'n ffordd hawdd a hwylus o gadw cofnodion. Mae'n uniongyrchol a gallwch chi roi'r wybodaeth i mewn tra byddwch chi'n gweinyddu'r feddyginiaeth, felly does dim rhaid i chi lenwi pethau yn nes ymlaen neu pan fyddwch chi'n cyrraedd adref. Rydych chi jyst yn ei roi i mewn i'ch ffôn, ac mae'r gwaith wedi'i wneud.

"Gyda FAWL, mae'n ofynnol i chi gadw cofnodion, ac mewn fformat priodol – mae'r ap hwn yn ei wneud i chi. Byddwn i'n annog ffermwyr eraill i fanteisio arno a gweld pa mor hawdd ydyw."

Mae WLBP wedi paratoi fideo byr sy'n rhoi mwy o wybodaeth am yr ap.
Gellir gwylio'r fideo drwy edrych ar wefan WLBP (**https://farmrecords.wlbp.co.uk**) a'r sianeli cyfryngau cymdeithasol yma:
Youtube: **https://www.youtube.com/watch?v=TQCZJbjkdZs** (Saesneg) **https://www.youtube.com/watch?v=Fov0NtLJ21Y** (Cymraeg)
Cofnodion Fferm WLBP Farm Records @WLBProducers Instagram WLBProducers

## COFIWCH RESTRU'CH HOLL RIFAU DALIAD GYDA FAWL

Yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2019 a mis Medi 2019 fe gafodd y system sydd yn caniatáu i bobl allanol i gadarnhau statws aelodau FAWL ei wirio 131,654 o weithiau. Mae'r system hwn ar-lein (FAWL web checker) ac ar gael i unrhyw un sydd yn cofrestru i'w ddefnyddio.

Fe gaiff y gwirydd ar-lein yma ei ddefnyddio gan farchnadoedd da byw, lladd dai, canolfannau casglu, arwerthwyr amaethyddol ac awdurdodau lleol. Mae'r busnesau yma yn ei ddefnyddio ar gyfer gwirio statws FAWL aelodau ac maent yn ei ystyried fel modd pwysig o sicrhau fod y da byw sydd yn cael ei phrynu ganddynt yn dod o ffermydd sydd yn aelodau o gynllun FAWL. Fe all arwerthwyr amaethyddol ddefnyddio'r gwirydd yma pan fod aelodau FAWL yn dymuno prynu deunydd rheoli plâu/ fermin. Un o fanteision o fod yn aelod o gynllun FAWL i'w fod yr Ymgyrch Defnyddio llygod laddwyr yn Gyfrifol (CRRU) yn rhoi cydnabyddiaeth i aelodau sydd yn cydymffurfio a safonau FAWL. Mae hyn yn golygu nad oes angen i aelodau cynllun FAWL i gymryd rhan mewn cwrs er mwyn bod yn cymwys i brynu deunydd rheoli plâu/fermin.

Er mwyn cadw'r system wiro yn gyfredol mae'n bwysig fod aelodau yn rhoi gwybod i'r swyddfa FAWL yn ysgrifenedig o unrhyw newidiadau i'r busnes e.e rhif daliad newydd/ ychwanegol neu newid yn yr enw masnachu trwy ê-bost **info@fawl.co.uk** neu drwy'r post. Swyddfa FAWL: **01970 636688, info@fawl.co.uk.** Gwirydd ar-lein: **www.fawl.co.uk**

# Paratoi eich busnes organig ar gyfer Brexit

- Dylech gysylltu â QWFC Ltd i roi gwybod i ni os ydych yn bwriadu allforio.
- Cyn allforio i'r Undeb Ewropeaidd (UE), bydd yn rhaid i chi sicrhau bod eich labeli yn cydymffurfio â gofynion newydd a chofrestru gyda TRACES NT fel allforiwr.
- Nodwch y gallai eich dogfennau ardystio newid hefyd.
- Cyn i chi allforio i unrhyw wlad y tu allan i'r UE, gwnewch yn siŵr y byddan nhw'n derbyn cynnyrch y Deyrnas Unedig (DU) ar ôl Brexit. Gwnewch yn siŵr hefyd fod eich labeli yn cydymffurfio ag unrhyw ofyniad cenedlaethol organig.
- Oni bai bod gan eich ardystiwr gymeradwyaeth gan y Comisiwn Ewropeaidd (CE), neu ein bod yn derbyn trefniant cywerthedd cyn i ni adael. Ar ôl Brexit, ni ddylid defnyddio logo organig yr UE yn y DU.
- Gall codau ardystio ar gyfer labelu newid. (e.e. gall cod cyfredol QWFC GB-ORG-13 newid).
- Unwaith y bydd eich ardystiwr wedi derbyn cymeradwyaeth y CE, efallai y bydd angen i'r cod ardystio ar gynhyrchion a chyfeiriadau at ble y cynhyrchwyd y cynnyrch (UE neu heblaw'r UE) newid.
- Os ydych chi'n mewnforio o wlad y tu allan i'r UE, gwnewch yn siŵr bod eich allforiwr yn ymwybodol o'r gofyniad am ddogfennaeth organig newydd yn y DU.

**DOLENNI DEFNYDDIOL:**

Canllawiau'r Llywodraeth: **https://www.gov.uk/guidance/the-farming-sector-and-preparing-for-eu-exit**

Labelu Bwyd (cyffredinol): **https://www.gov.uk/guidance/food-labelling-changes-after-brexit**

Rhybuddion e-bost Defra (Cofrestrwch ar gyfer rhybuddion e-bost am Brexit a'ch sector chi. Gallwch ddewis yr ardaloedd Defra rydych chi am dderbyn gwybodaeth amdanyn nhw): **https://public.govdelivery.com/accounts/UKDEFRA/subscriber/new?qsp=CODE_RED**

## Newyddion organig Glastir

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r wybodaeth ganlynol ar gyfer cwsmeriaid organig Glastir:

Bydd cwsmeriaid y mae eu contractau yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2019 yn cael cynnig estyniad i'w contract yn ystod yr Hydref eleni fydd yn estyn y contract hyd at 31 Rhagfyr 2021.

Bydd yr estyniad i'r contract yn cael ei gynnig drwy eich cyfrif RPW ar-lein. Unwaith y byddwch yn derbyn eich cynnig i ymestyn y contract, bydd angen i chi dderbyn y cynnig drwy ddewis y botwm glas ar eich cyfrif RPW ar-lein o fewn 21 diwrnod ar ôl i'r estyniad gael ei gynnig. Bydd y cynnig estynedig mewn dwy ran, byddwch yn derbyn ail ran y cynnig yn 2020.

Bydd cwsmeriaid y mae eu contractau yn dod i ben 31 Rhagfyr 2020 yn derbyn eu cynnig yn ystod yr Hydref nesaf. Bydd hyn yn adnewyddu'r contract hyd at 2021.

Ewch i'r ddogfen FAQ ar wefan Llywodraeth Cymru am ragor o wybodaeth: **https://gov.wales/glastir-organic-contract-renewal-frequently-asked-questions**

Os oes gennych unrhyw ymholiad ynghylch a'ch contract organig Glastir, yna cysylltwch â Taliadau Gwledig Cymru (RPW) Ar-lein: **0300 062 5004** neu drwy eich cyfrif Taliadau Gwledig Cymru (RPW) ar-lein.

## Ffair Aeaf Frenhinol Cymru 2019

Bydd gennym stondin yn Ffair Aeaf Frenhinol Cymru yn Llanelwedd unwaith eto eleni, ar 25ain a'r 26ain o Dachwedd. Mae'r stondin wedi ei lleoli ar y balconi sy'n edrych dros gylch y gwartheg – rhif stondin 282. Bydd cyfle ar y stondin i chi greu cyfrif ar yr adnodd Cofnodion Fferm ar-lein ac i weld sut allai'r system fod o fantais i'ch busnes. Cofiwch alw heibio i gwrdd â ni!

CAFC RWAS

## Awdurdodiad cludo da byw

**Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, mae sawl cwestiwn wedi cael ei godi ynglŷn â'r angen i gael awdurdodiad ar gyfer cludo da byw. Dyma fynd ati felly i nodi'r gofynion yn fyr:**

***Safon 13A, Deddfwriaeth trafnidiaeth: rhaid i bob anifail gael ei gludo yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol a bod pob anifail gyda'r dogfennau symud neu ddogfennau cyflenwi cywir. Rhaid i'r gyrwyr fod ar drwydded statudol gywir ar gyfer y cerbyd a ddefnyddir a thystysgrif cymhwysedd (certificate of competence) i gario da byw.***

**I unrhyw un sy'n cludo anifeiliaid ar deithiau o dros 65 cilometr (tua 40 milltir) fel rhan o weithgaredd economaidd, mae hyn yn cynnwys symud defaid i dir tac/rhent, rhaid iddyn nhw fod ar awdurdodiad dilys i wneud hynny.**

**Mae dau fath o awdurdodiad ar gael:**

- **Awdurdodiad taith fer (Math 1) ar gyfer taith dros 65km gan gynnwys wyth awr o siwrnai.**
- **Awdurdodiad taith hir (Math 2) ar gyfer pob taith dros 65km gan gynnwys siwrnai sydd dros wyth awr**

**Cyn gallu gwneud cais am Awdurdodiad Math 1 neu Math 2, mae'n ofynnol i chi wneud asesiad a chael Tystysgrif Cymhwysedd (Certificate of Competence) sydd ar gael gan gorff annibynnol a enwebwyd gan yr awdurdod cymwys. Dylai cludwyr da bwyd sicrhau fod ganddynt Dystysgrifau Cymhwysedd gyda nhw ar bob taith.**

**Ceir rhagor o wybodaeth ar y wefan ganlynol: https://www.gov.uk/animal-welfare#animal-welfare-during-transport.**

**Os oes gennych unrhyw gwestiwn pellach ynglŷn ag Awdurdodiad Trafnidiaeth Da Byw yna cysylltwch â'r tîm lles wrth gludo yn APHA: Ffôn: 0208 026 0491. E-bost: Wit@APHA.gsi.gov.uk.**

# Polisi nodwyddau sy'n torri mewn anifail

**Mae'n bwysig iawn bod unrhyw nodwydd sydd wedi torri y tu mewn i'r anifail yn ystod triniaeth yn cael ei chofnodi a'i nodi. Bydd hyn yn caniatáu i'r lladd-dy atal y cig rhag mynd i mewn i'r gadwyn fwyd.**

**Beth sydd angen ei wneud os bydd hyn yn digwydd?**

1 Os bydd nodwydd wedi torri yn cael ei adael mewn anifail yn ystod y driniaeth, bydd angen i chi:
   - Marcio'r anifail gyda dull adnabod clir a pharhaol.
   - Cofnodi dyddiad y digwyddiad, yr anifail a'r dull adnabod.
   - Cofnodi safle'r pigiad lle torrodd y nodwydd.
   - Pan fydd yr anifail yn cael ei waredu, bydd yr anifail yn cael ei anfon yn uniongyrchol i'w ladd ac ni chaiff yr anifail ei werthu i gynhyrchydd arall.

2 Bydd y symudiad neu'r dull o waredu'r anifail yn cael ei gofnodi yn llyfr cofnodion y fuches / cofnodion y ddiadell.

3 Os cedwir yr anifail fel stoc bridio neu os caiff ei gadw am fwy na 7 diwrnod, bydd ei statws iechyd yn cael ei fonitro'n rheolaidd.

4 Bydd yr anifail ond yn cael ei werthu o fewn 7 diwrnod os yw'r cyfnod cadw o'r gadwyn fwyd ar gyfer y sylwedd sy'n cael ei chwistrellu yn caniatáu hyn.

5 Bydd yr anifail yn cael ei anfon i ladd-dy gyda thystysgrif lladd brys gan filfeddyg ac yn darparu manylion ar gyfer safle'r pigiad.

6 Bydd safle'r pigiad gyda'r nodwydd wedi torri yn cael ei farcio ar yr anifail cyn ei lwytho.

7 Os yw'r anifail yn cael ei werthu ar ôl 7 diwrnod, bydd yn cael ei anfon i ladd-dy a dylid hysbysu'r lladd-dy yn ysgrifenedig o'r nodwydd sydd wedi torri, safle'r pigiad a dyddiad y digwyddiad. Bydd safle'r pigiad gyda'r nodwydd wedi torri yn cael ei farcio ar yr anifail cyn ei anfon.

8 Os cedwir yr anifail i'w fwyta gartref, bydd angen cymryd gofal i osgoi'r nodwydd sydd wedi torri; neu fel arall, bydd angen defnyddio dulliau ewthanasia i waredu'r anifail.

9 Dim ond pan fydd y gweithdrefnau uchod yn cael eu defnyddio y bydd gwartheg a defaid yn cael eu gwerthu dan gynllun gwarant fferm.

# Adolygiad Iechyd a Lles

Mae safon newydd wedi ei gyflwyno i gynllun FAWL ers mis Gorffennaf 2018. Y safon hwn ydy FAWL Safon 8c sef yr Adolygiad Iechyd a Lles Da Byw blynyddol.

Mae angen cynnal adolygiad iechyd a lles da byw blynyddol gyda milfeddyg. Disgwylir i'r milfeddyg adolygu:

1 **Problemau sy'n codi'n rheolaidd a materion allweddol, gan wneud argymhellion i wella'r materion a nodwyd.**

2 **Cofnodion meddyginiaethau a data, gan gynnwys y defnydd o feddyginiaethau gwrthlyngyrol (*anthelmintic*), meddyginiaethau atal llyngyr yr afu (*flukicide*) yn ogystal â'r cyfanswm o feddyginiaethau gwrthfiotig sydd wedi eu rhoi a'u defnyddio. Bydd angen hefyd i wneud argymhellion ar gyfer lleihau'r meddyginiaethau a ddefnyddir, lle bo hynny'n briodol.**

3 **Defnyddio Gwrthfiotigau Pwysig Critigol Uchaf o Flaenoriaeth (HP-CIAs) a gwneud argymhellion ar gyfer lleihau'r defnydd yn gyfrifol.**

4 **Triniaeth proffylactig a llunio argymhellion ar gyfer strategaethau eraill a gwahanol ar gyfer atal clefydau.**

5 **Bioddiogelwch**

Mae'n bwysig iawn ein bod yn gallu dangos bod cynhyrchwyr cig eidion a defaid o Gymru yn cymryd bygythiad ymwrthedd gwrthfiotig o ddifrif. Nid oes diben dweud wrth ddefnyddwyr nad ydy cynhyrchwyr cig eidion a chig oen yng Nghymru yn defnyddio llawer o wrthfiotigau, y dyddiau hyn mae'n rhaid i ni ei brofi. Mae angen i ni gael y dystiolaeth a'r data i gadarnhau ein honiadau. Bydd yr adolygiadau milfeddygol hyn yn ein galluogi i wneud hynny. Bydd hefyd yn fodd o gadarnhau gyda milfeddyg a oes gwir angen defnyddio cymaint o wrthfiotigau ag sy'n cael eu defnyddio. Fel diwydiant rydym yn wynebu sawl her, o lobïwyr lles i'r rhai sydd am ymateb i'r newidiadau mewn hinsawdd. Gallwch ein helpu ni i wynebu'r her wrthfiotig trwy gwblhau'r adolygiadau milfeddygol blynyddol yma.

Hyd yma mae milfeddygon fferm wedi cynnal dros 5,000 o adolygiadau. Derbyniwyd adborth cadarnhaol gan filfeddygon ac aelodau sydd wedi gweld hwn fel cyfle i drafod unrhyw faterion iechyd anifeiliaid sydd i'w gweld ar y fferm. Gall y cyngor a roddir gynhyrchu arbedion posib i'r busnes ynghyd â gwneud yn siwr ein bod yn defnyddio'r math cywir o feddyginiaethau a gwrthlyngyryddion.

Mae'r adolygiad Iechyd a Lles yn cynnig cyfle i chi i drafod gyda'ch milfeddyg gyda sawl ffermwr yn defnyddio'r amser hwn fel man cychwyn i baratoi cynllun iechyd anifeiliaid cyfredol a diweddar.

Yn ôl Rosie Gibson o Honddu Vets, Aberhonddu:

*'Rwy'n credu bod adolygiad iechyd a lles FAWL yn gam cadarnhaol iawn ymlaen. Mae'n gyfle gwych i gynnal trafodaeth un i un sy'n gallu arwain at y ffermwr yn cymryd penderfyniadau iechyd anifeiliaid ar sail gwybodaeth milfeddygol. Rydym yn gweld hyn fel dull rhagorol o egluro mesurau ataliol sy'n arwain at lleihau'r defnydd o wrthfiotigau ar y fferm. Ein nod ydy helpu ffermydd i ddod yn fwy effeithlon trwy wneud yn siŵr fod y stoc yn iach drwy wneud defnydd addas o'r meddyginiaethau sydd ar gael. Mae'r cynllun hefyd yn osgoi defnydd amhriodol, anghywir neu ddiangen o gyffuriau fel gwrthlyngyryddion, gwrthfiotigau neu'n frechlynnau. Mae adolygiadau iechyd a lles FAWL yn ein helpu i wneud hyn ac i weld yn gliriach o'r hyn sy'n digwydd ar ffermydd ein cleientiaid. Rydyn ni'n mawr obeithio y bydd ein cyngor yn fwy perthnasol a defnyddiol.'*

Mae'n bosibl cwblhau'r adolygiad Iechyd a Lles trwy ddefnyddio Cofnodion Fferm ar-lein. Mae'r ffermwr a'r milfeddyg hefyd yn gallu gweld yr adolygiad Iechyd a Lles ar yr amod bod y ddau wedi eu cofrestru ac wedi creu cyfrif ar wefan Cofnodion Fferm. **Am fanylion pellach ar sut i gofrestru, cysylltwch â: Llŷr Lewis 07741549270 neu llyrl@wlbp.co.uk**

# Cofnodion Fferm WLBP
# GWEITHDAI COFNODION FFERM

FARMING connect
cyswllt FFERMIO
08456 000 813

Beth am ymuno â'n **Gweithdai Cofnodion Fferm** fel bod cyfle i chi weld beth ydy'r manteision o'u ddefnyddio ar gyfer eich busnes.

Mae'r ddarpariaeth **Cofnodion Fferm ac Iechyd Anifeiliaid** ar gael i bob cynhyrchydd sy'n rhan o gynlluniau WLBP cig oen a chig eidion (FAWL), y cynllun llaeth a chynllun Organig Cymru. Mae'r meddalwedd newydd yma'n gallu eich helpu i gadw cofnodion manwl a chyfredol ar gyfer rheolaeth stoc. Maen nhw'n addas ar gyfer cadw cofnodion o'r ddiadell ddefaid, cofrestr y fuches ynghyd â chadw cofnod o'r meddyginiaethau sydd wedi'u prynu a chreu cofnod o'r triniaethau.

Ewch i dudalen Digwyddiadau Cyswllt Ffermio i archebu eich lle:
**https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/events**

| LLEOLIAD | DYDDIAD | AMSER |
|---|---|---|
| M-Sparc, Parc Gwyddoniaeth Menai, Gaerwen, LL60 6AG | 04/12/2019 | 2.00–4.00 |
| Pant Du Vineyard, Penygroes, Caernarfon, LL54 6HE | 05/12/2019 | 6.00–8.00 |
| Coleg Cambria Llysfasi, Ruthin Road, Ruthin, LL15 2LB | 09/12/2019 | 2.00–4.00 |
| Beaufort Park Hotel, Buckley, Mold, CH7 6RQ | 10/12/2019 | 2.00–4.00 |
| Glasdir, Plas yn Dre, Llanrwst, Conwy, LL26 0DF | 11/12/2019 | 2.00–4.00 |
| Ysgol y Berwyn, Ffrydan Road, Bala, LL23 7RU | 08/01/2020 | 6.00–8.00 |
| Marchnad Da Byw Y Trallwng, Buttington Cross, Y Trallwng, SY21 8SR | 09/01/2020 | 6.00–8.00 |
| The Elephant and Castle, Y Drenewydd, Powys, SY16 2BQ | 13/01/2020 | 2.00–4.00 |
| MRC Wales, Llandrindod Wells, Powys, LD1 6AH | 14/01/2020 | 6.00–8.00 |
| Llety Parc, Ffordd Parc y Llyn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, SY23 3TL | 16/01/2020 | 2.00–4.00 |
| Castle Hotel Aberhonddu, Powys, LD3 9DB | 20/01/2020 | 6.00–8.00 |
| The Beaufort Inn, High Street, Raglan, NP15 2DY | 21/01/2020 | 2.00–4.00 |
| Tyglyn Aeron, Ciliau Aeron, Lampeter, SA48 8DD | 22/01/2020 | 2.00–4.00 |
| The Plough Inn, Rhosmaen, Llandeilo, SA19 6NP | 23/01/2020 | 2.00–4.00 |
| St Mary's Golf Club, St Marys Hill, Pencoed, CF35 5EA | 27/01/2020 | 6.00–8.00 |
| Canolfan Adnoddau Coleg Gelli Aur (Coleg Sir Gar), Golden Grove, Caerfyrddin, SA32 8NJ | 28/01/2020 | 2.00–4.00 |
| Llwyngwair Manor, Holiday Park, Trefdraeth, Sir Benfro, SA42 0LX | 29/01/2020 | 6.00–8.00 |
| Best Western Lamphey Court Hotel and Spa, Lamphey, Pembroke, SA71 5NT | 30/01/2020 | 6.00–8.00 |

**Am wybodaeth bellach cysylltwch â Cyswllt Ffermio ar 08456 000 813 neu ewch i www.llyw.cymru/cyswlltffermio neu www.gov.wales/farmingconnect**

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

WLBP
https://farmrecords.wlbp.co.uk

## Gohirio o fewn llai na 24 awr – meddyliwch ddwywaith cyn gwneud hynny

Mae pawb sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth yn ymwybodol o bwysau amser y mae'n rhaid i ffermwyr weithio oddi tanynt i gyrraedd rhyw ddyddiad cau neu amser arbennig. Rydym yn ymwybodol y gall y pwysau i gael y cyfan yn barod arwain at anawsterau wrth gadw at yr apwyntiad sydd wedi'i drefnu ymlaen llaw gydag aseswyr fydd yn ymweld â'ch fferm. Mae yna adegau arbennig pan fydd rhyw argyfwng neu ddigwyddiad sydd y tu hwnt i'ch rheolaeth yn codi ei ben sy'n golygu bod yn rhaid i aelod ohirio eu hasesiad fferm ar fyr rybudd.

Rydym yn derbyn bod yr amgylchiadau hyn weithiau'n anochel. Fodd bynnag, fe hoffem ei gwneud yn glir, os bydd asesiad fferm yn cael ei ohirio o fewn llai na 24 awr i'r apwyntiad heb reswm dilys, yna bydd yn rhaid i ni godi tâl am ohirio a chodi anfoneb am ffi arall cyn y bydd yr asesydd yn gallu ail-ymweld â'r fferm i gwblhau'r asesiad. Os na wneir hyn, gallai arwain at atal aelod o'r cynllun.

Os oes angen i chi ohirio asesiad rydych chi eisoes wedi cytuno arno yna cysylltwch â'ch asesydd fferm neu'r swyddfa ardystio o leiaf 24 awr cyn y dyddiad a'r amser y cytunwyd arno ar gyfer yr asesiad.